

Bwrdd Cyngtori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân**27 Tachwedd 2017, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ****Cofnodion****Aelodau**

Michael Prior (MP)	Cadeirydd Annibynnol
Cyng. Sue Pickering (SP)	Awdurdod Tân ac Achub De Cymru
Grant Mayos (GM)	Undeb y Brigadau Tân, Aelod y Cyngor Gweithredol dros Gymru
Sean Starbuck (SS)	Undeb y Brigadau Tân
Paul Scott (PS)	Cymdeithas y Swyddogion Tân

Swyddogion a oedd yn Bresennol

Julie Brown (JB)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Kevin Jones (KJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mark Malson (MMA)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Pobl Eraill a oedd yn Bresennol

Chris Mulholland (CM)	Adran Actiwari'r Llywodraeth
-----------------------	------------------------------

Swyddogion Llywodraeth Cymru (yr Ysgrifenyddiaeth)

Kerry Citric (KC)	Y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub
Cerys Myers (CLM)	Y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub
Natalie Spiller (NS)	Y Gangen Gwasanaethau Tân ac Achub

Apologies

Cyng. Claire Mills	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Adrian Hughes	Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn
Clair Alcock	Y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Cyng. Bryan Apsley	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Arsylwyr

Chris Barton (CB)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Mark Miles (MM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

1. EITEM AGENDA 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod. Nodwyd bod 2 arsylwr ychwanegol hefyd yn bresennol, yn ogystal â swyddogion a oedd wedi dod gydag aelodau cyflogwyr (Chris Barton a Mark Miles). Mae rhestr o'r aelodau, y swyddogion sy'n bresennol, a'r arsylwyr wedi'i ddarparu i SABW i osgoi unrhyw ddryswch.

- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Claire Mills, y Cyng. Bryan Apsley, Adrian Hughes, a Clair Alcock. Pwysleisiodd MP bwysigrwydd aelodau yn dod i gyfarfodydd er mwyn ymgymryd â swyddogaeth SABW yn effeithiol.
- 1.3 Roedd MP yn dymuno mynegi cydymdeimlad ar ran SABW yn dilyn marwolaeth drist Carl Sargeant, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant blaenorol.
- 1.4 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau ganddynt i'w ddatgan.

2. EITEM AGENDA 2 – COFNODION O'R CYFARFOD DIWETHAF (3 FEBRUARY 2017 a 29 MEDI 2017)

- 2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror a 29 Medi a gwahoddodd yr aelodau i gytuno bod y cofnodion yn gywir. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y ddwy gyfres o gofnodion yn gofnod cywir.
- 2.2 Roedd papur materion sy'n codi wedi ei gylchredeg i gynnwys camau gweithredu'r ddau gyfarfod er mwyn nodi'n glir pan yr oedd camau gweithredu wedi eu cymryd neu eu bod yn parhau. Nododd MP bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau; byddai diweddariad ar Dâl Pensiynadwy a Byrddau Pensiwn Lleol yn cael eu cynnwys yn yr agenda.
- 2.3 Gwahoddwyd SS gan MP i roi diweddariad ar y camau gweithredu o'r cyfnod cyn 3 Chwefror.
 - *Darparu gwybodaeth ar nifer y diffoddwyr tân o Gynllun 2007 sydd â diddordeb mewn trosglwyddo i Gynllun 2015.* Esboniodd SS bod yr wybodaeth yn dibynnu ar ganlyniad tribiwnlys cyflogaeth sydd i'w gynnal 11-14 Rhagfyr. Gofynnodd SS am i'r eitem gael aros ar yr agenda.
 - *Ystyried cynnig i ganiatáu i aelodau cynllun 2007 drosglwyddo eu pensiynau i gynllun 2015.* Cydnabu MP bod y cam gweithredu hwn yn dibynnu ar y cam gweithredu uchod.
 - *Arenillion cyfraddau cyfraniadau cyflogeion* – gofynnodd SS i'r cam gweithredu gael ei ddileu o'r materion sy'n codi; cytunodd MP.
 - *Oedran Pensiwn wedi'i Ddiogelu* – dywedodd SS bod Undeb y Brigadau Tân yn aros am ymateb gan yr Ombwdsmon Pensiynau a gofynnodd am i'r eitem gael aros ar yr agenda.
- 2.4 Rhoddodd KC ddiweddariad ar gefnogaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub i Ganllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol ac esboniodd bod SABW wedi trafod yn flaenorol pa un a ddylid sefydlu cyllideb i dalu am agweddau hyfforddiant ac unrhyw gyngor actiwaraid posibl sy'n ofynnol gan SABW. Roedd cyllideb Scheme Board in England (SABE) yn seiliedig ar ardoll ar Awdurdodau Tân ac Achub; pe byddai SABW yn dilyn yr un drefn, byddai'r cyfraniadau yn darparu cyllideb gymharol fach i SABW heb lawer o fuddion. Trafodwyd y mater yn y

cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Chwefror a chytunwyd y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn ystyried dewisiadau ar gyfer cefnogi'r adnodd arbenigol ychwanegol yn y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA). Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub wedi cytuno ym mis Awst i gynnig i gynyddu ardoll Awdurdodau Tân ac Achub Cymru ar gyfer 2017/2018, ar gyfer gwasanaethau pensiwn gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, o £2 i £3 ar gyfer pob aelod diffoddwr tân. Cadarnhaodd yr Awdurdodau Tân ac Achub eu bod yn elwa ar y gwasanaeth.

- 2.5 Gofynnodd SS a oedd gan SABW drefniadau i gael cyngor actiwaraid, pe byddai ei angen er mwyn cyfrannu at y prisiad. Dywedodd MP bod tybiaethau'r Prisiad yr un fath â'r rhai yn Lloegr, ar y cyfan, ac na fu angen ceisio gwahanol gyngor. Ychwanegodd, pe byddai gwahaniaethau'n dod i'r amlwg yn y dyfodol, y byddai angen i SABW ailystyried y sefyllfa fesul achos.
- 2.6 O ran Costau Gwasanaeth a Roddwyd, dywedodd KC bod yr ysgrifenyddiaeth wedi ysgrifennu at Drysorlys EM i amlinellu safbwyntiau SABW yn unol â'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd copi o'r llythyr wedi'i gylchredeg i'r aelodau yn rhan o'r papur Materion sy'n Codi. Roedd Llywodraeth Cymru wedi siarad â Thrysorlys EM a ddywedodd nad oeddynt wedi dod i gytundeb terfynol gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch ymdrin â chostau gwasanaeth a roddwyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r sefyllfa i Drysorlys EM ac roeddynt yn nodi ac yn derbyn safbwyntiau SABW. Byddai SABW yn cael diweddariad pan fyddai hynny'n bosibl. Dywedodd CM y byddai'r modd o ymdrin â chostau gwasanaeth a roddwyd yn effeithio ar dybiaethau terfynol y prisiad ond nad oedd hynny wedi achosi oedi i'r cynnydd hyd yn hyn.

3. EITEM AGENDA 3 – PRISIAD 2016

- 3.1 Cyfeiriodd MP at y cyfarfod ym mis Medi pan rannwyd â'r aelodau wybodaeth am y tybiaethau actiwaraid cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân Lloegr a'u perthnasedd i'r prisiad yng Nghymru. Erbyn hyn, mae GAD wedi cynhyrchu adroddiad ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru a byddai angen i'r aelodau ystyried y tybiaethau er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru. Cylchredwyd copi o'r adroddiad a rhai cwestiynau penodol i'r aelodau eu hystyried cyn y cyfarfod.
- 3.2 Esboniodd CM ei bod yn ofynnol i GAD gyfrifo rhai, ond nid pob un, o dybiaethau'r prisiad er mwyn pennu cost i'r cynllun. Pennwyd tybiaethau cyffredinol (fel cyfradd disgownt, mynegai prisiau defnyddwyr a chynnydd mewn tâl) gan Drysorlys EM yn eu cyfarwyddiadau ar gyfer prisio.
- 3.3 Pennwyd y tybiaethau sy'n benodol i'r Cynllun ar gyfer y Prisiad gan Weinidogion Cymru, yn dilyn cyngor a ddarparwyd gan GAD. Roedd yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid; yn ymarferol roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â SABW. Cynigiwyd dyddiad terfyn o 15 Rhagfyr i sicrhau y byddai GAD yn gallu parhau â'u gwaith prisio mewn modd amserol. Roedd y tybiaethau yn ddarostyngedig i newid i adlewyrchu ymatebion yr ymgynghoriad a newid

sydd ar ddod yng nghyfarwyddiadau Trysorlys EM. Pe byddai'r newidiadau yn berthnasol i'r prisiad byddai'r adroddiad yn cael ei ailgylchredeg i SABW.

- 3.4 Cyfeiriodd CM at dybiaethau Cymru ar gyfer Prisiad 2012 a oedd, ac eithrio 'ymddeol mewn iechyd arferol' a 'codiadau tâl dyrchafu', yn adlewyrchu tybiaethau Lloegr. Roedd tybiaethau Cymru ar gyfer Prisiad 2016 yr un fath â'r rhai a nodir yn nhybiaethau Lloegr. Ychwanegodd CM bod peth o'r data sydd ar gael i ddadansoddi profiad y cynlluniau yn gyfyngedig o'i gymharu â'r cynlluniau cyfatebol yn Lloegr. Pan nad oedd unrhyw reswm i gredu bod y profiad ar draws aelodaeth y ddau gynllun yn wahanol iawn, roedd GAD wedi defnyddio data o Gynlluniau Lloegr i ffurfio'u hargymhellion ar gyfer Cynlluniau Cymru.

Marwolaeth o fewn y Cynllun Pensiwn

- 3.5 Esboniodd CM na fu digon o farwolaethau pensiynwyr (126) yng Nghymru yn ystod 2012-16 i gynnal dadansoddiad cadarn. Roedd GAD wedi cynnig defnyddio'r un dybiaeth marwolaeth a gynigiwyd ar gyfer Cynlluniau Lloegr (1,489). Dim ond dynion sy'n aelodau yr oedd y dadansoddiad yn eu cwmpasu gan fod y diffoddwyr tân sy'n fenywod yn gymharol brin i ganiatáu dadansoddiad profiad cadarn ar gyfer menywod.
- 3.6 Cwestiynodd SS y data a gofynnodd a fyddai cost y cynllun yn gostwng pe byddai tybiaeth marwolaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd CM y byddai hynny'n wir. Dywedodd SS bod y cynllun yn cael ei wneud yn ddrutach nag oedd angen iddo fod gan y byddai'r tybiaethau'n effeithio ar gyfradd cyfraniadau'r cyflogwyr, y cap cost a rheolaeth gyffredinol y cynllun. Esboniodd CM bod data Cymru wedi bod yn destun amrywiaeth eang ac nad oedd yn ddigon sylweddol i osod tybiaethau cadarn. Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer prisiad 2016 o gynllun pensiwn diffoddwyr tân yng Ngogledd Iwerddon, a oedd yn dangos perthynas debyg rhwng cyfraddau marwolaeth crynswth y boblogaeth o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr. I'r gwrthwyneb, bu canran fwy rhwng y tybiaethau ar gyfer prisiad 2016 o gynllun pensiwn diffoddwyr tân yn yr Alban o'i gymharu â'r rhai yn Lloegr ac felly gallai'r Alban ddefnyddio eu tybiaethau eu hunain ar gyfer eu Cynlluniau. Roedd MP yn cydnabod y byddai hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried mewn Prisiadau o'r Cynlluniau yn y dyfodol.

CAM GWEITHREDU: SABW i adolygu'r data a ddefnyddir mewn prisiadau o'r Cynlluniau yn y dyfodol.

- 3.7 Gofynnodd PS pa un a ystyriwyd cynnydd posibl mewn cyfraddau marwolaeth diffoddwyr tân rhwng 55 a 60 oed gan ei bod yn ymddangos eu bod yn gweithio am gyfnod hwy. Dywedodd CM nad oedd hyn wedi'i ystyried. Cyfeiriodd CM at effeithiau ffordd o fyw pensiynwyr rhwng 50 a 60 oed a allai newid cyfraddau marwolaeth pensiynwyr. Byddai'r newid i'r tabl sylfaenol yn achosi cynnydd o ryw 1.4% o'r tâl yng nghyfradd cyfraniadau cyflogwyr. Byddai rhywfaint o'r effaith yn cael ei wrthbwysu gan y newid i gyfraddau gwella ar gyfer marwolaeth yn y dyfodol.

- 3.8 Esboniodd CM bod cyfraddau marwolaeth pensiynwyr wedi'u diweddarau i adlewyrchu rhagamcanion poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2014. Nid yw Trysorlys EM wedi cadarnhau hyd yma a gaiff y data eu disodli gan y rhagamcanion poblogaeth sy'n seiliedig ar 2016 a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017; a fyddai'n achosi disgwyliadau is nag yn 2014. Byddai hyn yn lleihau yn sylweddol yr effaith ar gost y cap cost a chyfraniadau cyflogwyr. Cytunwyd y byddai ymateb yr ymgynghoriad yn gofyn i ddata ONS gael eu defnyddio.
- 3.9 Dywedodd CM bod digon o ddata wedi bod ar gael i ddadansoddi marwolaethau ar sail dadansoddiad o 'symiau' yn hytrach na 'bywydau' sef yr hyn a ddigwyddodd yn 2012. Mae dadansoddiad ar sail 'symiau' yn pwysoli'r profiad gyda maint pensiwn pob aelod ac roedd yn fwy cywir. Nodwyd bod SABE wedi cytuno â'r dull yr oedd GAD wedi'i ddefnyddio ac wedi nodi hynny yn eu hymateb i'r tybiaethau. Cytunwyd y byddai SABW yn defnyddio'r dull hwnnw hefyd.

CAM GWEITHREDU: Ymateb SABW i gynnwys cefnogaeth i ddadansoddiad data 'ar sail symiau'.

Oed ymddeol o'r gwasanaeth

- 3.10 Soniodd CM am y tybiaethau ar gyfer ymddeoliadau ieuchyd arferol o bob un o'r Cynlluniau unigol. Cynigiodd GAD newid i fabwysiadu tybiaeth Lloegr ar gyfer Aelodau Cynllun 1992 a thybiaeth newydd ar gyfer y cynllun wedi'i addasu, ond byddai'r lleill yn parhau fel y'u pennwyd ym Mhrisiad 2012.
- 3.11 Cyfeiriodd SS at y dybiaeth arfaethedig ar gyfer aelodau Cynllun 2007 gan fod Undeb y Brigadau Tân yn credu na fyddai diffoddwyr tân yn gallu gweithio tan eu bod yn 60 oed. Ychwanegodd SS y byddai hyn hefyd yn berthnasol i aelodau Cynllun 2015 a nododd bod gwahanol ffactorau ymddeol yn berthnasol i gynllun 2015 yng Nghymru. Cytunodd PS a dywedodd bod llawer o ddiffoddwyr tân wedi nodi ar lafar y byddent yn ymddeol cyn eu bod yn 60 ond nad oedd unrhyw dystiolaeth i gadarnhau hynny.
- 3.12 Derbyniodd CM y sylwadau ac esboniodd nad oedd digon o ddata i gynnal unrhyw ddadansoddiad ystyrlon o ymddeoliadau yng Nghynlluniau 2007 a 2015. Ychwanegodd CM nad yw'r data sy'n ymwneud â Chynllun 2015 yn berthnasol i Brisiad 2016 ac na fyddai'n effeithio ar gost y cynllun. Roedd SS o'r farn ei bod yn bwysig defnyddio data cywir ac y dylid cyfeirio at hyn pan nad oedd hynny'n bosibl.

Ymddeol o'r gwasanaeth oherwydd salwch

- 3.13 Cynigiodd GAD gynnal tybiaethau 2012. Gofynnodd MMA pa un a oedd nifer yr ymddeoliadau wedi cynyddu ers 2015/16, gan nodi bod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi gweld llawer mwy o ymddeoliadau yn 2016 nag yn 2012. Nododd KJ a JB bod ymddeoliadau oherwydd salwch yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd

Cymru yn isel ac nad oeddynt wedi gweld unrhyw gynnydd yn y duedd. Cytunodd pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub i ddarparu data a'u cynnwys yn eu hymateb. Dywedodd KC bod yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cyflwyno data ar salwch ar ôl y cyfarfod ym mis Medi er mwyn gwirio pa mor gywir yw'r ymddeoliadau haen isaf ac uchaf, ond awgrymodd bod Awdurdodau Tân ac Achub yn adolygu'r wybodaeth hon.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ailgylchredeg y data salwch a gasglwyd eisoes; Awdurdodau Tân ac Achub i ailedrych ar y data a'u diweddarau fel bo'r angen.

- 3.14 Esboniodd CM bod GAD yn cynnig cynnal y dybiaeth flaenorol o 40% ar gyfer buddion haen uchaf. Gofynnodd CB a oedd y ffigur yn adlewyrchu'r dybiaeth yn Lloegr. Cadarnhaodd CM bod y dybiaeth wreiddiol yn Lloegr rhwng 50% a 60% ond gan fod y data wedi bod yn amhendant, roedd GAD wedi mynd yn ôl i ddefnyddio'r dybiaeth flaenorol sef 40%. Cwestiynodd SS ansawdd y data yng Nghymru a phwysleisiodd bod y cynllun yn cael ei wneud yn ddrutach nag yr oedd angen iddo fod drwy ddibynnu ar ddata Lloegr. Crybwyllodd KC y gwiriad data yr oedd hi wedi cyfeirio ato yn flaenorol ar ôl cyfarfod mis Medi, gan egluro bod yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi darparu data ar nifer yr ymddeoliadau salwch yng Nghymru wedi'u rhannu i ymddeoliadau haen isaf ac uchaf a bod hyn wedi'i rannu â GAD, a dyna pam roedd cyfeiriad yn adroddiad GAD at ddau ffigur gwahanol yng Nghymru. Ychwanegodd JB bod y ffurflen a ddychwelwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi nodi bod 27% o ymddeoliadau oherwydd salwch yn rai haen uchaf ac awgrymwyd y gallai tybiaeth GAD fod yn rhy uchel pe byddai ffigur tebyg wedi ei roi gan Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru.

Tynnu'n ôl

- 3.15 O ran tynnu'n ôl yn wirfoddol o'r gwasanaeth, esboniodd CM bod GAD wedi ystyried digwyddiadau oedd wedi digwydd a allai fod wedi effeithio ar aelodaeth o'r cynllun (gan gynnwys cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau aelodau, cyflwyno cynllun 2015 a'r cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus). Cynigiodd GAD felly y byddai'n cynnal yr un dybiaeth ag a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2012. Gofynnodd PS a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i nifer y diffoddwyr tân a oedd wedi dewis peidio ag ymuno â'r cynllun pensiwn. Dywedodd CM nad oedd hyn yn berthnasol i'r Prisiad gan nad oeddynt wedi cyfrannu ac na fyddent yn gymwys i gael buddion o'r cynllun ac felly bod y rhain yn gostau niwtral o ran y Prisiad.
- 3.16 Esboniodd MP bod diweddariad ar y data optio allan wedi ei ddarparu mewn nifer o gyfarfodydd SABW. Ychwanegodd KC bod fersiwn fanylach wedi ei ddarparu i GAD a oedd yn cynnwys data ar gofrestru aelodau wrth gefn yn awtomatig. Dywedodd KC bod rhai o'r ffigyrau wedi newid ychydig o'r rhai a gylchredwyd yn flaenorol yn dilyn ymarfer glanhau data a oedd wedi canfod dyblygu ar gyfer rhai aelodau.

- 3.17 Dywedodd KC bod SWFRA wedi codi pryderon yn flaenorol ynghylch aelodau yn optio allan a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar incwm y cynllun yn y dyfodol. Esboniodd CM bod y rhan fwyaf o'r data yn cynrychioli'r rhai hynny a oedd yn optio allan o fewn y 3 mis cyntaf o fod yn aelod o gynllun 2015 a bod diddordeb gan GAD yn y rhai a oedd wedi optio allan ar ôl nifer o flynyddoedd. Ychwanegodd SS y gallai penderfyniadau ar yr achos gwahaniaethu ar sail oedran effeithio ar nifer yr aelodau sy'n optio allan yn y dyfodol. Roedd Undeb y Brigadau Tân yn parhau i gynghori ac annog aelodau i aros yn y cynlluniau. Ychwanegodd KJ bod llawer ohonynt yn ddiffoddwyr tân ar alwad gan ei bod yn debygol eu bod eisoes mewn cynlluniau ar wahân drwy eu prif gyflogwyr. Cyfeiriodd KC at y data a gasglwyd ar gyfer 2017/18 a dywedodd mai o Gynllun 2015 oedd y 31 achos o optio allan; a bod 19 ohonynt yn ddiffoddwyr tân wrth gefn.

Tâl Dyrchafu

- 3.18 Esboniodd CM bod yn rhaid i GAD amcangyfrif tâl ar adeg ymddeol er mwyn penderfynu beth fyddai'r pensiwn ar adeg ymddeol; a fyddai yn y pen draw yn effeithio ar gost y cynllun.

Cynnydd mewn dyrchafu – cynigion

- 3.19 Awgrymwyd bod nifer yr achosion o ddyrchafu dros dro wedi cynyddu a chydabuwyd bod aelodau'n gallu gweithio ar y radd dros dro honno am ryw 12 mis. Cyfeiriodd SS at newid mewn deddfwriaeth sydd wedi cael ei ôl-ddyddio i 2013 a oedd yn amlygu nad oedd dyrchafiad dros dro yn bensiynadwy ac felly nid oedd yn gysylltiedig â chyflog terfynol aelodau. Nodwyd bod aelodau yn gallu cynyddu eu pensiwn drwy gyfrannu ar sail Buddion Pensiwn Ychwanegol. Dywedodd CM nad oedd aelodau wrth gefn arbennig wedi eu cynnwys yn y dybiaeth flaenorol ond argymhellodd bod y dybiaeth yr un fath â'r tybiaethau ar gyfer aelodau wrth gefn safonol.

Cymudo

- 3.20 Esboniodd CM bod cymudo yn ymwneud ag aelodau a oedd wedi cyfnewid eu pensiwn am gyfandaliad. Roedd y tybiaethau o 15% ar gyfer cynlluniau 2007, 2015 a 2007/2015 cymysg fel y pennwyd gan gyfarwyddiadau 2014 Trysorlys EM.
- 3.21 Cynigiodd GAD na fyddai aelodau cymysg 1992-2015 yn cymudo symiau sylweddol o gynllun 2015 ond croesawodd CM safbwyntiau SABW ynghylch pa un a ddylid caniatáu rhywfaint o gymudo o gynllun pensiwn 2015. Ychwanegodd SS bod y dybiaeth o 15% yn ymddangos yn isel ar gyfer cynlluniau 2006 a 2015. Credwyd y byddai'r rhan fwyaf o'r aelodau yn dewis cymryd 12.1. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan aelodau eraill o'r bwrdd, gan gynnwys drwy gyfeirio at aelodau cymysg 1992-2015. Awgrymwyd bod diffoddwyr tân yn gyffredinol yn

cymryd y lefel uchaf bosibl o gymudo hyd yn oed pan oedd hyn yn achosi taliad treth.

3.22 Esboniodd KC bod Trysorlys EM wedi dangos diddordeb mewn casglu tystiolaeth gan Awdurdodau Tân ac Achub i hysbysu'r adolygiad o'r dybiaeth hon. Roedd y data gofynnol wedi'u hamlinellu yn y papur a oedd yn cyd-fynd â'r cais. I'w gwneud yn hawdd i gyfeirio, gwahoddwyd yr Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu tystiolaeth ar ffurf :-

- Tystiolaeth anecdotaidd ar ymddygiad diffoddwyr tân,
- Data ar ddiffoddwyr tân yn cymudo uchafswm y cyfandaliad di-dreth ers 2012.
- Data ar ddiffoddwyr tân yn cymudo uchafswm y cyfandaliad a thalu treth o 40% ers 2012.
- Unrhyw brofiad o ymddeoliadau oherwydd salwch o gynllun 2015.

Gofynnodd KC i'r Awdurdodau Tân ac Achub gyflwyno'r data erbyn dydd Mercher 6 Rhagfyr.

CAM GWEITHREDU: Awdurdodau Tân ac Achub i roi data ar ddiffoddwyr tân ynghylch cymudo erbyn 6 Rhagfyr.

Ystadegau Teuluol

3.23 O ran ystadegau teuluol, roedd yr holl dybiaethau yr un fath â'r rhai hynny a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2012. Cytunodd SABW ar y tybiaethau.

3.24 Esboniodd KC y byddai'r ysgrifenyddiaeth yn drafftio ymateb i'r Cadeirydd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai'r ymateb hwn yn cael ei rannu gyda SABW i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno'n ffurfiol.

CAM GWEITHREDU: Yr ysgrifenyddiaeth i ddrafftio ymateb i'r Cadeirydd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

4. EITEM AGENDA 4 – TÂL PENSIYNADWY

4.1 Gwahoddwyd SS a KJ gan MP i roi diweddariad ar Dâl Pensiynadwy. Dywedodd SS bod y mater yn ymwneud â diffoddwyr tân ar draws y DU ac nid dim ond y rhai yng Nghymru. Nid oedd Undeb y Brigadau Tân yn gallu rhoi diweddariad gan eu bod yn aros am benderfyniad gan yr Ombwdsmon Pensiynau. Cadarnhaodd KJ bod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn yr un sefyllfa ond roedd yn gobeithio y gellid defnyddio dull cyson ar draws pob un o'r 3 Awdurdod Tân ac Achub.

- 4.2 Dywedodd CM y byddai GAD yn parhau â'r Prisiad fel y cynlluniwyd tan fod y penderfyniad yn wybyddus. Ychwanegodd SS y byddai'r penderfyniad yn effeithio ar gostau gwasanaeth a roddwyd yn unig.
- 4.3 Pwysleisiodd MP nad oedd gan Lywodraeth Cymru farn ar y mater. Byddai'r mater yn aros ar yr agenda tan iddo gael ei ddatrys.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i roi Tâl Pensiynadwy ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. EITEM AGENDA 5 – DATA'R CYNLLUN

- 5.1 Cyflwynodd KC yr eitem a oedd yn rhoi diweddariad ar Ddata ar Arenillion Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogeion, Costau'r Cynllun ac Optio Allan o'r Cynllun.

Arenillion Cyfraddau Cyfraniadau Cyflogeion

- 5.2 Esboniodd KC ei bod yn ofynnol i SABW fonitro arenillion cyfradd cyfraniadau cyflogeion yn flynyddol. Byddai'r gwaith monitro yn rhoi dadansoddiad ôl-syllol a byddai'n rhoi gwybod i SABW a yw'r arenillion a amcangyfrifir, yn rhan o'r ymarfer prisio, yn cael eu cyflawni. Cyfanswm yr arenillion oedd 13.2%.
- 5.3 Cyfeiriodd KC at arenillion 2015-16 a oedd yn 13.1%. Roedd hyn yn unol ag amcangyfrifon arenillion GAD ar gyfer y cyfnod hwnnw. Yn seiliedig ar enillion yr Awdurdodau Tân ac Achub, roedd yr arenillion yn 2016-17 wedi cynyddu i 13.24%. Dros y ddwy flynedd roedd cyfanswm yr arenillion yn 13.17%.

Costau'r Cynllun

- 5.4 Roedd copi o gostau'r cynllun pensiwn wedi'u rhannu fesul Awdurdod Tân ac Achub wedi'i ddarparu i'r aelodau. Esboniodd KC bod y data yn dangos incwm a gwariant y cynllun (yr incwm yw cyfraniadau cyflogeion a chyflogwyr ac mae'r gwariant yn ymwneud â thaliadau a wnaed i bensiynwyr yn bennaf). Darparodd Trysorlys EM y gwahaniaeth mewn costau. Roedd y ffigyrau yn dangos pa mor anwadal yw'r gronfa pensiwn flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn enwedig yn 2015/16 pan fu mwy o ymddeoliadau na'r disgwyl yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.
- 5.5 Dywedodd SS bod y data yn dangos bod cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Data Optio Allan

- 5.6 Dywedodd KC bod y data Optio Allan ar gyfer 2017-18 yn cynnwys y ffigyrau diweddaraf a gyflwynwyd gan Awdurdodau Tân ac Achub. Pwysleisiodd fod ffigyrau rhai o'r blynyddoedd blaenorol ychydig yn wahanol yn dilyn ymarfer glanhau data er mwyn rhannu gwybodaeth fanwl â GAD a Thrysorlys EM.

- 5.7 Esboniodd KC bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio data ffurflenni FPF blynyddol i ddarparu gwybodaeth ar yr arenillion, costau'r cynllun a grantiau atodol ar gyfer pensiynau yn ogystal â nifer o geisiadau ad hoc eraill. Roedd cael data cywir gan yr Awdurdodau Tân ac Achub yn hynod bwysig.

6. EITEM AGENDA 6 – DIWEDDARIADAU GAN FYRDDAU PENSIWN LLEOL

- 6.1 Esboniodd MP bod yr eitem agenda hon yn rhoi cyfle i Awdurdodau Tân ac Achub rannu arfer da a thrafod materion penodol o bryder a godwyd gan y Byrddau Pensiwn Lleol.

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

- 6.2 Esboniodd MMA bod cynrychiolwyr y Byrddau Pensiwn Lleol wedi newid yn dilyn etholiad yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Mehefin ond nid oedd y Cadeirydd wedi newid. Cynhaliwyd dau gyfarfod ym mis Gorffennaf a mis Hydref. Nodwyd bod hyfforddi aelodau yn broblem ond roedd yr holl aelodau wedi cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac wedi bod yn y sesiwn hyfforddi ar pensiynau a gynhaliwyd ym mis Medi. Dywedodd MMA bod y gofrestr risg gyffredinol yn cael ei hadolygu. Roedd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gweinyddwr y Cynllun Pensiwn yn cael ei adolygu hefyd.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

- 6.3 Dywedodd MM bod dau gyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau Lleol wedi eu cynnal ers i SABW gyfarfod ym mis Chwefror. Diolchodd MM i MP am ddod i gyfarfod mis Gorffennaf i roi darlun cyffredinol o swyddogaeth SABW. Roedd y Bwrdd Pensiynau Lleol wedi cytuno ar Adroddiad Blynyddol 2016/17 ac roedd wedi ystyried y Polisi Asesu Risg a'r flaenraglen waith. Darparwyd hyfforddiant i aelodau newydd a darparwyd hyfforddiant atgoffa i'r aelodau presennol.

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

- 6.4 Esboniodd JB bod cynrychiolwyr y cyflogwyr wedi newid. Roedd un cyfarfod wedi'i gynnal ym mis Ebrill; roedd cyfarfod mis Tachwedd wedi'i ganslo a'i aildrefnu i'w gynnal ym mis Ionawr. O ganlyniad, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi cyflwyno ymateb i arolwg y Rheoleiddiwr Pensiynau heb drafod gyda'r Bwrdd Pensiynau Lleol. Er hynny, cymeradwywyd yr ymateb gan Gadeirydd y Bwrdd Pensiynau Lleol.
- 6.5 Soniodd KC am gysondeb yr adborth a chydabu bod y mater wedi'i gyfeirio i gyfarfod y Grŵp Personél a Datblygiad Sefydliadol a oedd wedi ei drefnu.
- 6.6 Ychwanegodd MP y byddai'n fodlon dod i gyfarfodydd unigol o'r Byrddau Pensiwn Lleol pe byddai hynny'n ddefnyddiol i'r aelodau.

7. EITEM AGENDA 7 - DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN DIFFODDWYR TÂN

- 7.1 Dywedodd KC bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddau orchymyn, un a oedd yn cwmpasu mân ddiwygiadau i gynllun 2015 a threfniadau trosiannol ac un a oedd yn cwmpasu buddion goroeswr ar ôl ailbiodi a mân ddiwygiadau eraill i gynlluniau 1992 a 2007.
- 7.2 Esboniodd KC nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Brewster gan ei fod yn ffurfio rhan o ddyfarniad y goruchaf lys ond byddai'r dyfarniad yn cael ei gynnwys yng ngorchymyn buddion terfynol goroeswr. Ar sail trafodaethau â'r Awdurdodau Tân ac Achub, nid oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod unrhyw achosion ôl-weithredol yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai'r gorchymyn yn cynnwys elfen ôl-weithredol rhag ofn y byddai unrhyw unigolion nad oedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi eu nodi.
- 7.3 Byddai'r ymgynghoriad yn cau ar 21 Rhagfyr. Cafwyd un ymateb gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- 7.4 Cyfeiriodd KC at ddyfarniad achos diweddar Walker v Innospec Limited, a benderfynodd y byddai unrhyw gynllun pensiwn sy'n cyfyngu partner sifil rhag cael buddion ar gyfnodau o wasanaeth cyn 5 Rhagfyr 2005 bellach yn cael ei ystyried fel bod yn anghyfreithlon. Roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried goblygiadau'r dyfarniad gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn aros am gyngor mwy cyffredinol gan Drysorlys EM. Dywedodd KC y gallai ymgynghoriad arall gael ei gynnal pe byddai achosion yng Nghymru a fyddai'n cael eu heffeithio gan y dyfarniad. Nid oedd SABW yn ymwybodol o unrhyw achosion ôl-weithredol yng Nghymru.

8. EITEM AGENDA 8 – ISAFSWM TALIAD WEDI'I WARANTU – YMARFER CYSONI AWDURDODAU TÂN AC ACHUB

- 8.1 Esboniodd KC, yn dilyn cyflwyniad pensiwn gwladol un haen, y gofynnwyd i'r cynlluniau weithio gyda CThEM i gynnal ymarfer cysoni data i sicrhau bod y cofnodion yn gywir. Cadarnhaodd pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub bod gweinyddwyr y cynlluniau yn gweithio gyda CThEM ond roedd yn ymddangos bod Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi ei flaenoriaethu.
- 8.2 O ran gordaliadau, roedd Trysorlys EM wedi dweud mai swyddogion cyfrifyddu unigol oedd i benderfynu ar ba un a ddylid cymryd yn ôl unrhyw ordaliadau, yn seiliedig ar egwyddorion Rheoli Arian Cyhoeddus. Mewn blynyddoedd blaenorol, ystyriwyd na fyddai'n gost-effeithiol i adennill unrhyw ordaliadau.

9. EITEM AGENDA 9 – UNRHYW FUSNES ARALL

- 9.1 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw fusnes arall i'w adrodd. Ychwanegodd MP ei fod wedi'i wahodd i fynd i gyfarfod SABE ar 1 Rhagfyr ac y byddai'n rhoi adborth yn y cyfarfod nesaf.
- 9.2 Cyfeiriodd KC at ddyddiad y cyfarfod nesaf a oedd wedi ei drefnu i'w gynnal ym mis Mawrth 2018. Awgrymodd KC y dylai'r cyfarfod gael ei aildrefnu ar gyfer mis Ebrill i gyd-fynd â chyhoeddiad terfynol y Prisiad.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i aildrefnu a chadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.